

Chwaraeon RhCT
Sport RCT

Longyfarchiadau...

TÎM RYGBI CERDDED PONTYCLUN BODGERS



12 Diwrnod y Nadolig 2025
Enillydd 6

TÎM RYGBI CERDDED PONTYCLUN BODGERS

Ym mis Hydref cynhaliodd Pontyclun Bodgers ŵyl Rygbi Cerdded fwyaf erioed Cymru, gyda bron i 240 o chwaraewyr o 20 tîm yn mynychu o bob cwr o dde Cymru a de-orllewin Lloegr. Roedd y chwaraewr ieuengaf yn yr ŵyl yn 7 oed, a'r hynaf yn 87 oed. Gyda llawer o dimau yn cynrychioli clybiau rygbi, roedd yna lawer o ornestau lleol a chystadlaethau'r gorffennol i'w gweld.

Caiff rygbi cyffwrdd ei chwarae ar gyflymder cerdded, ac mae rygbi cerdded wedi'i dargedu'n bennaf at chwaraewyr hŷn neu'r rhai sydd ag anafiadau, ond gall unrhyw un ei chwarae, gyda dynion a menywod yn gallu chwarae gyda'i gilydd. Mae Pontyclun Bodgers yn hyfforddi am 6.30pm bob nos Lun yng Nghlwb Rygbi Pont-y-clun ac am 10.30am bob dydd Mercher ym Mharc Pont-y-clun. Maen nhw bob amser yn awyddus i groesawu chwaraewyr newydd, a does dim angen unrhyw brofiad blaenorol o rygbi.